

Datganiad prosesu teg/preifatrwydd

Beth sy'n digwydd i wybodaeth a ddelir amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

Sut rydym ni'n defnyddio data personol

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae Gwasanaeth Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Pen-y-bont ar Ogwr yn cael, yn dal, yn defnyddio ac yn datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau a gymerwn i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei gwarchod, ac mae hefyd yn disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion o ran eu data personol y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ymdrin ag ef.

Mae defnyddio a datgelu data personol yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth Diogelu Data. Felly, mae dyletswydd ar CBS Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau ei fod yn ymdrin â phob data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn briodol er mwyn diogelu a chynnal ffydd a hyder unigolion yn y Cyngor.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn bod gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr sylfaen gyfreithiol dros brosesu data, yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

1. Pam rydym ni'n ymdrin â data personol?

Bydd Gwasanaeth Budd-daliadau CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn casglu, yn prosesu ac yn storio gwybodaeth bersonol amdanoch chi ac am aelodau eraill yr aelwyd er mwyn prosesu eich hawliad am Fudd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol, Gostyngiad yn y Dreth Gyngor, prydau ysgol am ddim, y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad (grant gwisg ysgol), Grant Cyfleusterau i'r Anabl (fel y bo'n berthnasol i chi), taliadau cymorth hunanynysu, cynlluniau cymorth tanwydd y gaeaf a thaliadau cymorth i ofalwyr di-dâl. Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth am aelodau'r aelwyd, rydym yn cymryd yn ganiataol eich bod yn gwneud hynny gyda'u gwybodaeth a'u cydsyniad llawn.

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i:

- ymgymryd â'n dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Deddf Addysg 1996
- gweinyddu asesu budd-daliadau a grantiau
- gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd i gadarnhau eich bod yn gymwys i gael cymorth
- rhannu gwybodaeth gyda'ch landlord os oes gennym gydsyniad (gellir tynnu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd)
- cynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain
- ymgymryd â dadansoddi ac ymchwil a all gynorthwyo Llywodraeth Cymru i bennu darpariaeth cymorth ychwanegol ac anghenion cyllid yn y dyfodol, ynghyd â'r ffordd orau o gefnogi awdurdodau lleol a'u trigolion.
- cynnal arolygon, er enghraifft arolygon boddhad cwsmeriaid
- mentrau twyll lleol

- cynorthwyo ag atal troseddu ac erlyn troseddwy
- cymorth ariannol mewnol a swyddogaethau corfforaethol
- ymgymryd ag arferion paru data o dan fentrau twyll lleol a chenedlaethol

2. Pa fath/dosbarthiadau o ddata personol ydym ni'n ymdrin â nhw?

Er mwyn ymgymryd â'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall CBS Pen-y-bont ar Ogwr gael, defnyddio a datgelu data personol, gan gynnwys y canlynol:

- Manylion personol – enw, cyfeiriad, dyddiad geni ac oedran, rhywedd, rhif Yswiriant Gwladol, tystiolaeth adnabod, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
- Manylion yr aelwyd – gan gynnwys data personol a strwythur teuluol yr unigolion sy'n byw ar yr aelwyd, sy'n llunio'r cais am gymorth
- Statws mewnfudo
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Manylion ariannol
- Gwybodaeth tenantiaeth ac eiddo
- Manylion y landlord
- Unrhyw ddyled yn gysylltiedig â'r denantiaeth ac unrhyw ddyled arall
- Hanes cyfeiriadau blaenorol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Cofnodion myfyriwr a disgybl
- Gwybodaeth y ffeil achos
- Manylion iechyd corfforol neu iechyd meddwl
- Gwybodaeth am anabledd
- Manylion/diagnosis meddygol
- Tras hiliol neu ethnig
- Dewis iaith
- Manylion cerbyd
- Delweddau gweledol, golwg personol, ac ymddygiad
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Achosion troseddol, canlyniadau a dedfrydau.

Bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn wybodaeth, a ddelir ar gyfrifiadur, ar gofnod papur h.y. ffeil, ar ffurf delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a ddelir yn electronig e.e. delweddau teledu cylch cyfyng.

Weithiau, bydd ar y Gwasanaeth Budd-daliadau angen gwybodaeth am bobl heblaw am yr unigolyn sydd wedi gwneud cais am fudd-dal neu wasanaeth er mwyn cyfrifo hawl yr unigolyn. Er enghraifft, pan fydd unigolyn yn hawlio Budd-dal Tai neu Ostyngiad yn y Dreth Gyngor, bydd angen gwybodaeth arnom am y bobl eraill sy'n byw ar yr un aelwyd i gyfrifo faint fydd yn cael ei dalu i'r unigolyn.

3. Am bwy y caiff gwybodaeth ei phrosesu

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall CBS Pen-y-bont ar Ogwr gael, defnyddio a datgelu data personol am y canlynol:

- Cwsmeriaid
- Aelodau aelwyd y cwsmer
- Staff, unigolion sy'n cael eu contractio i ddarparu gwasanaeth
- Hawlwyr
- Aelodau aelwyd yr hawlydd
- Achwynwyr, ymholwyr neu eu cynrychiolwyr
- Cynghorwyr proffesiynol ac ymgynghorwyr
- Myfyrwyr a disgyblion
- Gofalwyr neu gynrychiolwyr
- Landlordiaid
- Derbynyddion budd-daliadau
- Tystion
- Troseddwyr a throseddwyr dan amheuaeth
- Deiliaid trwydded a hawlenni
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill

Bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol, gan gynnwys prosesu eich hawliad am:

- Fudd-dal Tai
- Lwfans Tai Lleol
- Gostyngiad yn y Dreth Gyngor
- Taliad Disgresiwn at Gostau Tai
- Prydau ysgol am ddim
- Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad (grant gwisg ysgol)
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Taliadau cymorth hunanynysu
- Cynlluniau cymorth tanwydd y gaeaf
- Taliad Cymorth i Ofalwyr Di-dâl

Gallai data personol fod yn wybodaeth, a ddelir ar gyfrifiadur, ar gofnod papur h.y. ffeil, ar ffurf delweddu, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a ddelir yn electronig e.e. delweddu teledu cylch cyfyng.

4. O ble rydym ni'n cael data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall CBS Pen-y-bont ar Ogwr gael data personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Yn uniongyrchol gan yr unigolyn sy'n gwneud cais am gymorth
- Landlord presennol, cyn-landlordiaid a darpar landlordiaid
- Yr unigolion eu hunain
- Perthnasau, gwarcheidwaid neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cyllid a Thollau EF
- Awdurdodau trwyddedu
- Cynrychiolwyr cyfreithiol
- Awdurdodau erlyn

- Cyfreithwyr amddiffyn
- Llysoedd
- Carchardai
- Tystion
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol
- Sefydliadau cymeradwy a phobl sy'n gweithio gyda'r Cyngor
- Archwilwyr
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau llywodraethol
- Gwasanaethau brys
- Cyflogwr presennol, cyn-gyflogwyr a darpar gyflogwyr yr unigolyn
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Sefydliadau addysg a hyfforddiant
- Cymdeithion busnes neu gynghorwyr proffesiynol eraill
- Gweithwyr ac asiantiaid CBS Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyflenwyr, darparwyr nwyddau neu wasanaethau
- Pobl sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn
- Sefydliadau a chynghorwyr ariannol
- Ymgynghorwyr meddygol a meddygon teulu
- Llywodraeth leol
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
- Ombwdsmon ac awdurdodau rheoleiddio
- Y cyfryngau
- Proseswyr data sy'n gweithio ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Gwasanaeth Prawf
- Canolfannau Rhannu Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
- Gwybodaeth sydd ar gael ar y rhyngwyd
- Camerâu sy'n cael eu gwisgo gan swyddogion ar y corff
- Adrannau eraill o fewn y Cyngor
- Sefydliadau dadansoddi, arolygu ac ymchwil
- Asiantaethau gwirio credyd

Gall CBS Pen-y-bont ar Ogwr hefyd gael data personol o ffynonellau eraill, fel ei systemau teledu cylch cyfyng ei hun, neu ohebiaeth.

5. Sut rydym ni'n ymdrin â data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1, bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ymdrin â data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn deg ac yn gyfreithlon, gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf o safbwynt cywirdeb, perthnasedd, digonoldeb, ac nad yw'n ormodol, ei fod yn cael ei gadw mor gyfredol â'r gofyn, yn cael ei amddiffyn yn briodol, ac yn cael ei adolygu, ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel pan na fydd ei angen mwyach.

6. Sut rydym ni'n sicrhau diogelwch data personol?

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd diogelwch yr holl ddata personol o dan ein rheolaeth o ddifrif. Byddwn yn sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys archwilio a monitro cywirdeb, i

amddiffyn ein systemau gwybodaeth â llaw ac electronig rhag colli a chamddefnyddio data, a chaniatáu mynediad iddynt ddim ond pan fydd rheswm dilys dros wneud hynny ac wedyn o dan ganllawiau caeth o ran pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol ynddynt. Caiff y gweithdrefnau hyn eu rheoli a'u gwella'n barhaus i sicrhau diogelwch cyfredol.

7. I bwy rydym ni'n datgelu data personol?

Weithiau, mae angen i ni rannu gwybodaeth gyda'r unigolion rydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt a sefydliadau eraill. Lle bo angen hyn, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Mae disgrifiad isod o'r mathau o sefydliadau y gall fod angen i ni rannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol a broseswn gyda nhw, am un rheswm neu fwy:

- Cwsmeriaid
- Teulu, cymdeithion, neu gynrychiolwyr yr unigolyn rydym yn prosesu ei ddata personol
- Cyflogwyr presennol, cyn-gyflogwyr a darpar gyflogwyr
- Landlordiaid presennol, cyn-landlordiaid a darpar landlordiaid
- Sefydliadau gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Addysgwyr
- Darparwyr nwyddau a gwasanaethau
- Sefydliadau ariannol
- Llywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cyllid a Thollau EF
- Ombwdsmon a gwasanaethau rheoleiddio
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Llysoedd a thribiwnlysoedd
- Cyrff proffesiynol
- Sefydliadau dadansoddi, arolygu ac ymchwil, gan gynnwys unrhyw sefydliad y mae Llywodraeth Cymru yn ei gomisiynu i ymgymryd ag ymchwil ar ei rhan
- Asiantaethau gwirio credyd
- Heddluoedd
- Cymdeithasau tai a landlordiaid
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
- Darparwyr cymorth
- Myfyrwyr a disgyblion, gan gynnwys eu perthnasau, eu gwarcheidwaid, eu gofalwyr neu eu cynrychiolwyr
- Proseswyr data
- Cyrff rheoleiddio
- Llysoedd, carchardai
- Cyllid a thollau
- Llywodraeth leol a chanolog
- Asiantaethau a chyrrff gorfodi rhyngwladol y gyfraith
- Asiantaethau partner, sefydliadau cymeradwy ac unigolion sy'n gweithio gyda'r heddlu
- Awdurdodau trwyddedu
- Darparwyr gwasanaeth
- Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd
- Cyflogwyr presennol, cyn-gyflogwyr a darpar gyflogwyr

- Awdurdodau erlyn a gorfodi'r gyfraith
- Gwasanaethau mentrau twyll lleol a chenedlaethol
- Cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfreithwyr amddiffyn
- Y gwasanaeth datgelu a gwahardd
- Bargyfreithwyr
- Darparwyr Hyfforddiant
- Archwilwyr
- Gwasanaethau eraill y Cyngor

8. Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio'r wybodaeth hon?

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, caniateir i ni ond defnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol pan fydd rheswm priodol a chyfreithlon gennym dros wneud hynny. Y sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch gwybodaeth gennym yw er mwyn bodloni ein dyletswydd gyfreithiol o dan ddeddfwriaeth Budd-dal Tai, Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor a Phrydau Ysgol am Ddim, ac i ymgymryd â'n dyletswyddau fel Cyngor. Ar rai adegau, galleu ofyn i chi am eich cydsyniad penodol i ddefnyddio'ch gwybodaeth.

9. Beth yw eich hawliau yn gysylltiedig â'ch data personol sy'n cael ei drin gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr?

Mae gan unigolion amrywiol hawliau:

Hawliau mynediad

Yn amodol ar eithriadau, gallwch gael copi o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor. Hefyd, mae hawl gennych gael cadarnhad ynghylch p'un a yw'r data amdanoch yn cael ei brosesu ai peidio gan y Cyngor. Os ydyw, mae hawl gennych gael y wybodaeth ganlynol, yn amodol ar eithriadau:

- Dibenion y prosesu a'i sail gyfreithiol
- Categoriâu'r data personol dan sylw
- Y derbynyddion y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir storio'r data personol
- Cyfleu'r data personol sy'n cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael am ei darddiad.

**Sylwch mai ystyr 'prosesu' yw gweithrediad neu gyfres o weithrediadau ar ddata personol, fel casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adalw.*

Gall fod angen tystiolaeth adnabod ac unrhyw wybodaeth arall y mae ei hangen er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylai unrhyw gais am y wybodaeth uchod gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir yn gysylltiedig â chi. Os yw'r data'n anghywir am ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os byddwch chi'n gofyn iddynt wneud hynny.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data ac anfonir ymateb o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn bod y Cyngor yn dileu eich data neu'n cyfyngu ar brosesu eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi a yw eich cais wedi'i ganiatáu ac, os ydyw wedi'i wrthod, y rhesymau dros ei wrthod.

Yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau awtomataidd

Yn amodol ar eithriadau, mae hawl gennych beidio â bod yn destun penderfyniad pan fydd wedi'i seilio ar brosesu awtomataidd ac mae'n arwain at effaith gyfreithiol neu effaith arwyddocaol debyg arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi eich barn a chael esboniad gan y Cyngor am ei benderfyniad, a'i herio. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft awdurdodiad yn ôl y gyfraith, cyflawni contract yr ydych yn barti iddo.

10. Am ba hyd y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw data personol?

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw data personol am ba hyd bynnag sy'n angenrheidiol at y diben neu'r dibenion penodol y'i cedwir, yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Gadw Data.

11. Cysylltu â Ni

Gall unrhyw unigolyn sy'n pryderu am y ffordd y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ymdrin â'i ddata personol gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

E-bost foi@bridgend.gov.uk

Ffôn 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr
Churchill House
Churchill Way

Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399

E-bost: wales@ico.org.uk

Gwefan: <https://ico.org.uk/>